# Cefnogaeth yng Ngheredigion



Canolbwyntio arnoch chi

Canllaw i bobl ifanc, rhieni a gofalwyr

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol



### Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolyn

Mae Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolyn (CCU) yn golygu eich rhoi chi ynghanol y broses ar gyfer dynodi eich anghenion a chael y gefnogaeth iawn.

### Beth yw cyfarfod neu adolygiad CCU?

Cyfarfod anffurfiol ydyw gyda chi, eich rhieni ac unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n eich cefnogi. Mae'n ymwneud â gwrando arnoch chi a deall eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau am y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i gyrraedd eich potensial yn llawn.

Byddwn yn eich cefnogi i:

Feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi ac er eich mwyn chi.

Meddwl am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.

Gwneud yn siŵr eich bod yn cael y gefnogaeth orau.

## Cefnogaeth gyda Dysgu

Mae angen ychydig o gefnogaeth ychwanegol ar nifer o ddysgwyr gyda'u hanghenion dysgu. I'r mwyafrif o ddysgwyr gall hyn olygu cael mynediad at gefnogaeth sydd ar gael i bob person ifanc, fel technoleg gynorthwyol.

I eraill, gall gwneud newidiadau fod yn angenrheidiol a fydd yn dileu rhwystrau a'u galluogi i gyfranogi'n llawn yn eu haddysg. Gelwir y newidiadau hyn yn "addasiadau rhesymol" a gallant gynnwys cael mynediad at drefniadau arholiadau neu newid ffont ar daflen waith.

## Beth yw cynllun datblygu unigol? (IDP)?

Mae anghenion pawb yn wahanol felly bydd faint o help a'r math o help a roddir yn wahanol hefyd. Mae'n bosibl y bydd angen **darpariaeth ddysgu ychwanegol** ar rai pobl ifanc. Bydd hyn yn dibynnu ar asesiad o'ch anghenion unigol.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn casglu cymaint o wybodaeth ag y gallwn am eich anghenion dysgu a'r hyn sy'n bwysig i chi. Gall darpariaeth ddysgu ychwanegol gynnwys cefnogaeth gan gynorthwyydd addysgu neu gael mynediad at offer arbenigol. Pa bynnag gefnogaeth fydd ei hangen arnoch byddwn yn eich helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Os oes angen darpariaeth addysgol ychwanegol arnoch byddwn yn gweithio gyda chi i lunio **cynllun datblygu unigol** neu **CDU**.

Bydd y cynllun datblygu unigol yn nodi'r hyn sydd ei angen arnoch er mwyn gallu dysgu a'r hyn fydd yn cael ei wneud fel eich bod yn cael y gefnogaeth iawn yn yr ysgol neu'r coleg.

## Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- chi (a gyda'ch caniatâd) eich rhieni cymaint ag sy'n bosibl
- y math o angen addysgol ychwanegol sydd gennych
- sut mae'r ysgol, coleg, awdurdod lleol neu wasanaeth iechyd yn eich helpu chi (darpariaeth ddysgu ychwanegol)
- eich targedau
- a fydd y gefnogaeth yn cael ei chynnig yn Gymraeg
- enw unrhyw ysgol arbennig neu goleg arbennig yr ydych yn ei mynychu/y byddwch yn ei mynychu.

## Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys:

- eich enw, oed, rhywedd, a'ch cyfeiriad
- eich dull o gyfathrebu. Mae hyn yn golygu sut yr hoffech i bobl roi gwybodaeth i chi a sut yr hoffech ddweud wrthyn nhw beth rydych chi'n ei feddwl. Er enghraifft, efallai yr hoffech siarad â nhw neu efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio iaith arwyddion neu luniau.
- a oes angen cefnogaeth arnoch i wneud penderfyniadau
- enw'r person a fydd yn gofalu am eich cynllun, a gwneud yn siŵr bod pawb sy'n ymwneud â'r gefnogaeth a roddir i chi yn deall pa mor bwysig yw hi bod eich barn a'r ffordd orau o'ch cefnogi yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Gelwir y person hwn yn "**gydlynydd dynodedig**".
- yr hyn rydych chi'n ei hoffi a'r hyn nad ydych yn ei hoffi.
- yr hyn sy'n gweithio'n dda i chi a'r hyn nad yw'n gweithio cystal
- a fydd pethau gwahanol i'r hyn a ddysgir i bobl ifanc o'r un oed â chi yn cael eu dysgu i chi yn yr ysgol.
- yr holl wybodaeth a ddefnyddiwyd i helpu wrth lunio'r cynllun
- digwyddiadau pwysig—fel symud ysgol, profion ysbyty neu ddigwyddiadau yn y cartref.
- unrhyw newidiadau — fel newid ysgol neu fynd i'r coleg. Gelwir hwn yn "Pontio".



**Pwy fydd yn gofalu am fy nghynllun?**

Byddwn yn dynodi person i ofalu am y cynllun a gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gysylltiedig â'r gefnogaeth a roddir i chi yn deall pa mor bwysig yw hi bod eich barn a'r ffordd orau o'ch cefnogi yn cael eu cynnwys yn y cynllun.

Gelwir y person hwn yn "**gydlynydd dynodedig**".

**Pwy fydd yn gwneud yn siŵr y cedwir at fy nghynllun?**

Rydyn ni am i bobl ifanc ag ADY elwa cymaint ag sy'n bosibl o'r ysgol neu goleg. Nid yw cael cynllun ynddo'i hun yn ddigon. Bydd gan bob ysgol neu goleg rywun a fydd yn gwneud yn siŵr:

- bod gan bob person ifanc ag ADY gynllun
- bod yr hyn sydd yn y cynllun yn cael ei gyflawni
- bod y cynllun yn helpu'r plentyn neu berson ifanc i wneud pethau'n well.

Gelwir y person hwn yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ALNCo).






## Eich cefnogi chi i wneud penderfyniadau drosoch chi eich hunan

Gall eich Cydlynydd ADY egluro popeth am eich CDU i chi. Mae hyn yn cynnwys pwy fydd yn ei gynnal, eich hawliau i gydsynio neu wrthwynebu (cytuno neu anghytuno) â phenderfyniadau'n ymwneud ag ADY a'ch CDU.
Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am sut y gwneir penderfyniadau ynghylch eich anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd yn rhoi gwybodaeth i chi ac yn eich helpu i wneud yn siŵr eich bod yn deall beth fydd yn digwydd os byddwch chi'n cytuno i'ch cynllun datblygu unigol a beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn cytuno iddo. Gelwir hyn yn "benderfyniad ar sail gwybodaeth".

Er mwyn gallu gwneud y penderfyniad hwn drosoch chi eich hunan, bydd gofyn i chi allu:

- deall y wybodaeth
- cofio'r wybodaeth yn ddigon hir
- meddwl am y wybodaeth
- cyfleu eich penderfyniad

Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r cynllun wneud pob peth o fewn ei allu i'ch helpu i benderfynu drosoch chi eich hun.

Ni allwn wneud cynllun heb eich caniatâd chi.

## Byddwn yn gofyn i chi:

- Beth rydych chi'n ei feddwl am eich CDU.
- Ydych chi'n cytuno â'r cynllun?
- Ydych chi'n caniatáu i'r cynllun fynd yn ei flaen?
- Gyda phwy ydych chi'n hapus i rannu eich gwybodaeth?

Byddwn yn cofnodi pryd a sut y gwnaed eich penderfyniad. **Mae'n bwysig cofio y gallwch chi newid eich meddwl unrhyw bryd.**

## Cefnogaeth i wneud penderfyniad

Hyd yn oed os ydych chi'n gallu rhoi caniatâd eich hunan, mae'n syniad da o hyd i gynnwys eich rhieni wrth benderfynu. Os ydyn nhw'n gwybod beth sy'n digwydd, gallan nhw eich helpu i feddwl drwy eich penderfyniad a'ch cefnogi'n well.

Os nad ydych chi'n gallu (abl) i wneud penderfyniadau eich hunan ynghylch eich cynllun datblygu unigol gall eich rhieni weithredu yn "**gynrychiolwyr**" i chi. Mae hyn yn golygu y byddan nhw yn ystyried yr holl wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad gan gymryd eich hawliau, meddyliau a theimladau i ystyriaeth cyn gwneud penderfyniad ar eich rhan.

Gallwch hefyd ofyn i **eiriolwr** eich helpu. Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad o'ch plaid, yn eich helpu i ddweud yr hyn rydych chi am ei ddweud ac yn gwneud yn siŵr y bodlonir eich anghenion.

## Rhoi stop ar gynllun

Gallwn roi stop ar gynllun os nad oes ei angen bellach.

Cyn y gallwn roi stop ar gadw cynllun datblygu unigol, rhaid i ni ddweud wrthoch chi (a gyda'ch caniatâd) eich rhieni ein bod yn ystyried rhoi stop ar y cynllun a pham rydyn ni'n ystyried gwneud hyn.

Os ydych chi am i ni barhau â'r cynllun, mae gennych gyfnod penodedig o amser i roi gwybod i ni. Byddwn yn dweud wrthych faint o amser sydd gennych i wneud hyn. Bydd yr awdurdod lleol yn gwrando arnoch chi. Yna, bydd yn rhoi gwybod a fydd y cynllun yn dod i ben neu beidio.

Gall cynllun barhau tan eich bod yn 25 mlwydd oed ac mewn addysg, os oes angen. Rhaid i'r cynllun ddod i ben cyn eich pen-blwydd yn 26 oed.





## Beth sy'n digwydd os ydw i'n anghytuno â'r cynllun ?

Byddwn yn gwneud ein gorau i fynd i'r afael â'ch pryderon cyn gynted â phosibl.

Gallwch ofyn i eiriolwr annibynnol eich helpu chi i fynegi eich pryderon.

Gall **SNAP Cymru** weithio gyda chi (a'ch teulu) i wneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'ch barn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Gallwch gysylltu â SNAP Cymru ar 0808 801 0608 neu, i gael rhagor o wybodaeth, fynd i'w gwefan www.snapcymru.org

Bydd hyn yn helpu i atal plant, rhieni a phobl ifanc rhag gorfod gwneud apêl.

Cais gennych chi i benderfyniad gael ei newid yw apêl.

## Eich hawl i apelio

Tribiwnlys Addysg Cymru. Grŵp arbennig o bobl yw tribiwnlys sydd â'r gwaith o fynd i'r afael ag anghytundeb. Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn dribiwnlys annibynnol sy'n cynnal gwrandawiadau a gwneud penderfyniadau ar apeliadau ynghylch anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion a cholegau.

Gall y tribiwnlys benderfynu a ydych chi'n gallu deall eich cynllun ac yn abl i apelio. Os nad ydych yn gallu deall, gall eich cynrychiolydd apelio i'r tribiwnlys ynghylch penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'ch cynllun. Mae'n rhaid i bawb gytuno â phenderfyniad y tribiwnlys a chadw at ei orchmynion.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'w gwefan: www.educationtribunal.gov.wales neu ffoniwch 0300 025 9800.

### Tribiwnlys Addysg Cymru

Gall y tribiwnlys benderfynu a ydych chi'n gallu deall eich cynllun ac yn abl i apelio. Os nad ydych yn gallu deall, gall eich cynrychiolydd apelio i'r tribiwnlys ynghylch penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'ch cynllun. Mae'n rhaid i bawb gytuno â phenderfyniad y tribiwnlys a chadw at ei orchmynion.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'w gwefan: www.educationtribunal.gov.wales neu ffoniwch 0300 025 9800.

### Beth os ydw i'n anghytuno â gwasanaeth iechyd?

Os yw eich pryderon neu anghytundebau yn ymwneud â gwasanaeth iechyd, gallwch ddefnyddio proses 'Gweithio i Wella' y GIG. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.wales.nhs.uk/ourservices/publicaccountability/Puttingthingsright



# Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am ADY yng Ngheredigion?




Mae'r Cydlynydd ADY—Darpariaeth Disgyblion a Rhieni yn wasanaeth cyfrinachol, rhad ac am ddim a all roi cefnogaeth a gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol dros y ffôn neu drwy gwrdd â chi wyneb yn wyneb. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cydlynydd ADY—Darpariaeth Disgyblion a Rheini

01545570881

e-bost: pps@ceredigion.gov.uk.

http://www.ceredigion.gov.uk/resident/schools-education/additional-learning-needs/

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

## Gwasanaethau Dysgu Ceredigion


**Canolfan Rheidol,**

**Rhodfa Padarn,**

**Llanbadarn Fawr,**

**Aberystwyth,**

**Ceredigion,**

**SY23 3UE**

**Rhif ffôn: 01545 570881**


Cyngor Sir CEREDIGION County Council